sportwales chwaraeoncymru

# Dogfen Ganllawiau COVID-19 Chwaraeon Cymru: Profion COVID-19 mewn Athletwyr Elitaidd yng Nghymru

## Cwmpas

Cwmpas y ddogfen hon yw darparu canllawiau ar gyfer rheoli athletwyr o Gymru a ystyrir fel rhai 'Elitaidd' gan y Grŵp Chwaraeon Cenedlaethol ac felly sydd â chaniatâd arbennig i barhau i hyfforddi, cystadlu a theithio yn ystod pandemig COVID-19.

## Profi Athletwyr Asymptomatig

Mae'r canllawiau hyn yn darparu fframwaith ar gyfer chwaraeon wrth ystyried profi athletwyr elitaidd asymptomatig. Mae'r senarios posibl ar gyfer profion o'r fath yn cynnwys:

- Profi athletwyr yn rheolaidd i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â hyfforddiant
- Profi athletwyr cyn a/neu ar ôl teithio, y tu allan i Gymru a thramor
- Profi athletwyr yn dilyn cyswllt risg uchel posibl gydag achos o COVID-19 a amheuir neu a gadarnhawyd

### Optio i Mewn neu Optio Allan

Bydd angen i'r holl athletwyr a'r staff fod wedi optio i mewn i'r broses o barhau i hyfforddi a chystadlu yn ystod pandemig COVID-19 (tynnir sylw at fanylion y broses optio i mewn yn nogfennau RTP chwaraeon).

Dylid darparu ***sesiwn addysg*** i bob athletwr ac aelod o staff yn ***esbonio'r broses brofi*** ac yn sicrhau eu bod yn ***deall cryfderau a gwendidau*** profi unigolion asymptomatig. Wedyn dylid rhoi'r dewis i bob athletwr ac aelod o staff optio i mewn/allan o'r prosesau profi.

### Math a Diffiniad

Rhaid i'r broses brofi ar gyfer pob camp gael ei harwain gan Swyddog Meddygol COVID-19 y gamp honno. Bydd angen i Swyddog Meddygol COVID ystyried y math o brofion sydd ar gael a rhaid bod yn hyderus wrth ddehongli canfyddiadau'r profion.

Profion Labordy PCR - SARS-CoV-2-RNA (swab nasoffaryngeal ac oroffaryngeal + PCR) yw'r profion mwyaf sensitif a phenodol sydd ar gael ar hyn o bryd. Diffinnir prawf positif drwy ganfod gronynnau RNA feirol (genynnau) ar y prawf RT-PCR (Ct≥40).

*Profion Llif Unffordd yn y pwynt gofal – Mae'r math hwn o brofi'n rhoi llai o sensitifrwydd a llai o fanylder na phrofion PCR ond mae'n darparu canlyniadau cyflym o fewn 30 munud. Dim ond mewn* ***sgrinio asymptomatig*** *ddylid defnyddio'r math hwn o brofi, a dylai unrhyw* ***ganlyniad positif gael ei gadarnhau ar unwaith gan brawf PCR labordy a dylai'r athletwr ynysu nes bod canlyniad y prawf PCR ar gael...*** *Cynghorir cymryd gofal gyda dibynadwyedd y prawf ac felly adlewyrchir hyn mewn unrhyw benderfyniadau a wneir gan swyddog meddygol COVID.*

### Y Broses Brofi

Rhaid i bob pecyn profi fod â phroses ddilysu dau gam o leiaf ar waith ar gyfer adnabod h.y. adeg llunio ac adeg cymryd/sicrhau'r sampl.

Os cynhelir y prawf gan dechnegydd brofi, rhaid i'r profwr fod mewn PPE lefel dau h.y. menig, masg, ffedog, a gogls/tarian wyneb. Os cynhelir y prawf gartref (hunanbrofi), rhaid i'r broses brofi gael ei goruchwylio o bell gan dechnegydd profi profiadol (e.e. Swyddog Meddygol COVID-19).

Dylai'r Technegwyr Profi gael lefel briodol o hyfforddiant i leihau gwall samplu. Unwaith y bydd yr holl brofion wedi'u cwblhau, dylid eu rhoi mewn cynhwysydd diogel wedi'i selio a'u cludo i'r labordy.

Achosion Wedi'u Cadarnhau yn Flaenorol
Yr argymhellion presennol yw *na ddylid cynnal unrhyw brofion ailadroddus* ar unigolyn **asymptomatig** o fewn 90 diwrnod i ganlyniad positif blaenorol oherwydd y risg o ganlyniad positif oherwydd RNA gweddillol heb unrhyw haint acíwt cyfredol.

## Profi Athletwyr Symptomatig

Dylai unrhyw athletwr Elitaidd sy'n arddangos symptomau posibl COVID-19 hunanynysu ar unwaith a chysylltu â swyddog meddygol COVID-19 ei gamp.

Dylai athletwyr sy'n arddangos symptomau COVID-19 ddilyn canllawiau'r GIG a chael eu profi drwy **system brofi'r GIG (https://gov.wales/getting-tested-coronavirus-covid-19).** Ni ddylid defnyddio profion Llif Unffordd gydag unigolion symptomatig.

*Mae cyfansoddiad y symptomau'n cyfeirio at y symptomau sydd wedi'u rhestru gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer COVID-19, ac eithrio anosmia a pheswch parhaus, oherwydd rydym yn gwybod bod y symptomau hyn yn parhau am sawl wythnos ar ôl i unigolyn gael ei ystyried fel unigolyn heb haint.

## Rheoli Athletwyr/Staff yr Amheuir bod ganddynt COVID-19 neu Ganlyniad Prawf Positif

Argymhellir y broses ganlynol ar gyfer rheoli canlyniadau profion positif (neu ddatblygu symptomau os yw hyn yn rhagflaenu prawf) mewn athletwr neu aelod o staff. Dylai'r broses hon gael ei harwain gan **Swyddog Meddygol COVID** y gamp.

1. Hysbysu ac ynysu'r person dan sylw ar unwaith.
2. Mae Swyddog Meddygol COVID yn cwblhau proses olrhain cysylltiadau drylwyr i nodi unrhyw gysylltiadau risg uchel â'r achos positif (edyrchwch ar y ddogfen ganllawiau ar gyfer olrhain cysylltiadau: *Dogfen Canllawiau Profi, Olrhain a Diogelu COVID-19 Chwaraeon Cymru*). Dylid nodi cysylltiadau agos o ddiwrnod cymryd y swab i **48 awr ynghynt** (neu ddatblygu symptomau os yw hyn yn rhagflaenu prawf).
3. Hysbysu Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol Chwaraeon Cymru (caniatâd wedi'i sicrhau).
4. Swyddog Meddygol Covid yn hysbysu'r awdurdod iechyd cyhoeddus lleol: Rhif 24 awr Iechyd Cyhoeddus Cymru: **0300 003 0032**. Rhaid rhannu pob prawf positif gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru er mwyn sicrhau effeithlonrwydd gorau posibl y strategaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) genedlaethol. Cyfeiriad e-bost:
5. Dylid rhoi gwybod i grŵp hyfforddi o athletwyr am ganlyniad positif gyda chyngor i barhau i gadw llygad am symptomau.
6. Sicrhau bod pob cyswllt cartref yn cael ei hysbysu hefyd. Bydd TTP yn olrhain cysylltiadau ar gyfer y cysylltiadau hynny y tu allan i'r gamp. Bydd angen i gysylltiadau ynysu. Bydd olrhain cysylltiadau a gyflawnir gan Swyddog Meddygol COVID a'r gamp yn unol â chanllawiau cyfredol TTP. Rhaid anfon yr holl gysylltiadau a nodir yn y gamp at TTP i'w dilyn gan Swyddog Meddygol COVID-19
7. Sicrhau os yw athletwr dramor ei fod yn dychwelyd adref yn ddiogel yn unol ag argymhellion teithio COVID-19.

<u>Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol COVID-19 Chwaraeon Cymru</u>

Bydd Grŵp Goruchwyliaeth Chwaraeon Cymru yn ymgynnull i drafod pob achos positif ac yn rhoi cymorth i Swyddog Meddygol COVID y gamp mewn prosesau gwneud penderfyniadau.

Bydd y Grŵp Goruchwyliaeth yn cynnwys Rheolwr Clinigol, 2 Feddyg Chwaraeon Cymru, Rheolwr Gweithredol Chwaraeon Cymru. Bydd gan y grŵp gysylltiadau penodol yn Llywodraeth Cynulliad Cymru/Iechyd Cyhoeddus Cymru i gynorthwyo gydag ymholiadau/pryderon ynghylch olrhain cysylltiadau/cymorth feirolegydd.

<u>Tablau Cyfarwyddyd ar gyfer Rheoli Canlyniadau Profion PCR a Symptomau Athletwyr</u>

*(Ni ddylid eu defnyddio gyda Phrofion Llif Unffordd)*

| Canlyniad PCR | Symptomau | Unigolyn | Tîm | Cartref |
|---|---|---|---|---|
| Positif | Presennol | 10 diwrnod o ynysu a nes bod y tymheredd uchel wedi gwella. (Sylwer nid oes angen ynysu estynedig gyda pheswch ac anosmia.)<br><br>Dim ymarfer am 7 diwrnod ar ôl i'r symptomau wella.<br><br>Ailintegreiddio gyda'r gamp ar ôl isafswm o 17 diwrnod a chliriad ffurfiol gan Swyddog Meddygol COVID y gamp.<br><br>Dim ailbrofi sgrinio PCR rheolaidd (asymptomatig) o fewn 90 diwrnod. | Cwarantin i'r holl gysylltiadau agos posibl nes ceir cadarnhad gan y Grŵp Goruchwyliaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cwarantin am 10 diwrnod<br><br>Angen olrhain cysylltiadau drwy TTP |
| Positif<br><br>Galw cyfarfod o'r Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol | Absennol ac yn parhau'n absennol drwy'r amser | 10 diwrnod o ynysu ond ystyried ailbrofi ar ôl 3 diwrnod gan aros am ganlyniad y Grŵp Goruchwyliaeth.<br><br>*Ail brawf negatif:*<br><br>Ailintegreiddio posibl gyda'r tîm ar ôl adolygiad y Grŵp Goruchwyliaeth a chliriad ffurfiol gan Swyddog Meddygol COVID a chytundeb ICC.<br><br>*Ail brawf positif:* | Cwarantin i'r holl gysylltiadau agos posibl nes ceir cadarnhad gan y Grŵp Goruchwyliaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cwarantin nes ceir canlyniad yr ail brawf<br><br>***Ail brawf negatif:*** angen adolygiad gyda'r Grŵp Goruchwyliaeth Meddygol ac ICC<br><br>***Ail brawf positif:*** Cwblhau 10 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Cwblhau 10 diwrnod cychwynnol o ynysu ac ailintegreiddio gyda'r tîm ar ôl adolygiad y Grŵp Goruchwyliaeth a chliriad ffurfiol gan Swyddog Meddygol COVID y gamp<br><br>Dim ailbrofi sgrinio PCR rheolaidd (asymptomatig) o fewn 90 diwrnod | | diwrnod o gwarantin<br><br>Olrhain cysylltiadau drwy TTP/ Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Positif<br><br>Galw cyfarfod o'r Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol | Absennol ond yn bresennol cyn ail brawf | Dilyn y broses canlyniad PCR Positif a symptomau'n bresennol uchod | Cwarantin i'r holl gysylltiadau agos posibl nes ceir cadarnhad gan y Grŵp Goruchwyliaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cwarantin am 10 diwrnod<br><br>Olrhain cysylltiadau drwy TTP/ Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Negatif | Presennol | Ailbrofi ar ôl 3 diwrnod ar ôl dyfodiad y symptomau<br><br>*Ail brawf negatif:*<br><br>Ailintegreiddio posibl gyda'r tîm ar ôl cliriad ffurfiol gan Swyddog Meddygol COVID<br><br>*Ail brawf positif:*<br><br>Cyfnod ynysu o 10 diwrnod o ddyfodiad y symptomau nes bod yn asymptomatig<br><br>Ailintegreiddio gyda'r tîm ar ôl isafswm o 17 diwrnod a chliriad ffurfiol gan Swyddog Meddygol COVID<br><br>Dim ailbrofi ond ailddechrau yn y pŵl profi wythnosol | Dim cwarantin fel mater o drefn nes bod ail brawf yn bositif, wedyn cwarantin i'r holl gysylltiadau agos posibl nes ceir cadarnhad gan y Grŵp Goruchwyliaeth ac Iechyd Cyhoeddus Cymru | Cwarantin am 10 diwrnod os yw'r ail brawf yn bositif<br><br>Olrhain cysylltiadau drwy TTP |

Tabl 1: Rheoli canlyniad prawf unigolyn

| Canlyniad PCR | Symptomau | Unigolyn | Tîm | Cartref |
|---|---|---|---|---|
| Amherthnasol | **Presennol mewn aelod o'r cartref** | Cwarantin ar unwaith nes bod aelod o'r cartref yn cael prawf PCR<br><br>Os yw'r prawf yn bositif, yr unigolyn yn mynd i gwarantin am 10 diwrnod<br><br>Os yw'r prawf yn negatif, ailintegreiddio gyda'r tîm ar ôl trafodaeth gyda'r Grŵp Goruchwyliaeth Feddygol. | Amherthnasol os nad yw yn y cartref hefyd | Os yw'r prawf yn negatif dim angen cwarantin<br><br>Os yw'r prawf yn bositif aelod o'r cartref yn ynysu am 10 diwrnod ac yn asymptomatig gyda gweddill y cartref yn mynd i gwarantin am 10 diwrnod |

Tabl 2: Rheoli aelod o'r cartref sydd â symptomau